**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd**
**Nos Fawrth, Mehefin 9, 2015 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Janet Edwards, Eirlys Roberts, Elfed ap Gomer a Gareth Ellis. Hefyd Peredur Jenkins a Henry Edwards

**1. Ymddiheuriadau:** Gethin Williams, Llinos Williams a Carwyn Evans.

**2. Datgan diddordeb**:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 12, 2015**

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 12, 2015**

Eitem 9.ch. Llythyr (28/5/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod sydd ddim angen sefydlu cofrestr o fuddiannau aelodau.

Eitem 9.d. Llythyr (2/6/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod cwrs Cyllid Llywodraeth Leol wedi cael ei ganslo.

Eitem 11.a. Llythyr ateb (13/5/2015) yn rhoi gwybod mae'r mater wedi cael ei roi i Adran Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cyngor Gwynedd.

Eitem 11.c. Cafwyd gwybod bod Elfed ap Gomer wedi cael map ardal y Cyngor.

Eitem 11.d. Llythyr ateb (15/5/2015) oddi wrth Adran Addysg yn rhoi gwybod mae cofnodion Corff Llywodraethol, sydd wedi cael ei gadarnhau yn gywir, yn ddogfennau cyhoeddus. Nid oes hawl rhannu gwybodaeth gyfrinachol.

Eitem 9.f. Cafwyd adroddiad gan Geraint Rowlands am y cyfarfod Her Gwynedd. Mae'n debygol cawn wybod mis Medi pa wasanaethau bydd yn cael eu heffeithio gyda thoriadau. Roedd syniad i gael cynghorau cymuned i gyd-weithio, a syniad i'r cynghorau creu incwm. Cafodd yr aelodau copi o 'Cam 2' paratowyd gan Cyngor Gwynedd.

**5. Materion Ariannol**

a. Mae Mr John D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, wedi archwilio'r Cyfrifon y Cyngor 2014-2015. Anfonwyd y ffurflen ymlaen i Hacker Young.

Mae Hacker Young, Archwiliwr Allanol, wedi colli'r contract i wneud gwaith o'r fath yn y dyfodol.

b. Derbyniwyd (16/5/2015) £1,130 oddi wrth Glyn Rees & Son. Taliad at Selwyn Goldsworthy. £650 (Claddedigaeth gyntaf) + £480 (hawl claddu). Angladd ar 20/5/2015.

Mae camddealltwriaeth wedi ei wneud gyda'r taliad. Y pris ydy £655 = £175 (claddu gweddillion o'r amlosgfa.) + £480 (bedd ar gyfer tri pherson). Mae angen ad-dalu Glyn Rees & Son £475.

Penderfynwyd talu'r ad-daliad..

c. Bil (3/6/2015) am £500 oddi wrth Mr E.W. Davies am dorri gwair a defnyddio chwyn laddwr yn y fynwent ar ddiwedd mis Mai.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Balans yn y Banc ar Mai 29, 2015: £9,408.05.

**6. Mynwent Llanelltyd**

a. Mae'r Clerc o'r farn:

i. Mae angen torri pump coed ifanc a chlirio gordyfiant yn gornel y fynwent, islaw Ty'r Elor (yr adeilad sydd wrth y gât i'r fynwent). Mae'n gorchuddio tri bedd. Hefyd, mae angen torri gwair, sydd yn glympiau tew, i lawr i'r ddaear yn narn yma o'r tir.

ii. Mae angen i'r aelodau archwilio'r darn diweddaraf o'r fynwent h.y. rhwng y gât isaf a'r wal.

Archwiliwyd y fynwent gan yr aelodau wedi'r Cyfarfod.

Penderfynwyd: i. tarmacio'r llwybrau. Awgrymwyd cael pris gan Tywyn Construction Co, Caerdeon Farm, Bontddu, Barmouth, LL42 LTH, a Brodyr Evans, y Goedlan, Brithdir, Dolgellau, LL40 2RN.

ii. torri'r gwair a'r coed uchod, a thacluso tyfiant ar wyneb y wal sy'n haneru'r fynwent. Awgrymwyd cael pris gan E. W. Davies, I.W. Thompson, Tŷr Ysgol, Llanelltyd, Dolgellau, LL40 2TA, ac A.M. Ashton, Blaen Glyn, Abergeirw, Dolgellau, LL40 2PF.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio:

NP5/65/289C. Adeiladu estyniad ac ymestyn cwrtil. Tawelfryn, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (22/5/2015).

b. Llythyr (15/5/2015) yn rhoi gwybod maent yn ymchwilio i'r defnydd Hen Doiledau yn Llanelltyd.

c. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/65/134C. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Diwygiad ansylweddol i amnewid ffenestri Ffrengig pren caled staenedig gyda ffenestri Ffrengig UPVC. Tyn yr Ardd, Llanelltyd.

**8. Gohebiaeth**

a. Llythyr (13/5/2015) oddi wrth Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth o gynllun tuag at wasanaethau cymdeithasol ac iechyd a chyd-weithio rhwng y gwasanaethau Cyngor Gwynedd a Prifysgol Betsi Cadwaladr.

b. Llythyr (1/6/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Cynhadledd Cynghorau Mwy Un Llais Cymru yn Hafod Hendre, Maes Sioe Frenhinol Cymru ar 8 Gorffenna 2015 am 9:30yb. Amgáu mae agenda'r Gynhadledd.

c. Llythyr (8/6/2015) oddi wrth Gethin Williams ynglŷn â llwybr yn Bontddu. Nid oes rhwystr i neb defnyddio'r llwybr. Amgáu mae copi o 'title deed plan' o'r tir..

**9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

a. Trefnwyd cael cyfarfod gyda Mr Iwan ap Trefor, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cyngor Gwynedd yn Swyddfa Penarlag ar Mai 29, 2015 am 12:30yp. Mae caniatâd wedi ei roi gan Llywodraeth Cymru i ddiogelu ffordd A496 ger Taicynhaeaf a chawn wybod beth yw diweddaraf am wneud gwaith yn Bontddu.

Gohiriwyd cyfarfod oherwydd camddealltwriaeth. Cafwyd gwybod ganddo bydd gwaith ar ffordd A496 ger Taicynhaeaf yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol bresennol. Bydd y gwaith yn cynnwys rhoi 'centre hatching' o Borthwnog Hotel i Bryn-melyn, rhoi 'double white line' o Borthwnog Hotel i Bontddu, a rhoi 'crash barriers' ar ochr y ffordd lle mae tai yn is na'r ffordd orllewinol o Borthwnog Hotel. Bydd mwy o wybodaeth wedi manylion y gwaith cael ei baratoi.

Yn Bontddu mae llinell wen wedi cael ei roi ar ochr y ffordd trwy'r pentref ac mae'n debygol bydd marciau yn cael ei roi ar draws y ffordd i arafu cyflymder y traffic.

b. Bydd datblygiad yn cael ei wneud i Ysgol Llanelltyd.

**10. Materion Brys**

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd:

i. mae polyn ffens ar bont wrth Llwyntryfer, Taicynhaeaf wedi torri ac mae angen un arall yn ei le.

ii. mae angen ysgubo ffordd Cwm Wnin, Llanelltyd.

iii. mae angen tocio'r tyfiant sy'n tyfu ar wyneb y wal ar ffordd A470 rhwng Y Curfew a throad i stad Bro Cymer.

---